

Etholiad Cymru 2021: Beth yw gweledigaeth y pleidiau ar y Gymraeg? Dadansoddiad gan Gymdeithas yr Iaith.

A ninnau yng nghanol etholiad, mae'n angenrheidiol argyhoeddi'r pleidiau o'n gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf a'r angen i flaenoriaethu'r Gymraeg yn hytrach na'i gadael yn ôl-ystyriaeth. Fel dinasyddion a phleidleiswyr, mae'r grym yn ein dwylo ni; mae'n hollbwysig ein bod felly'n ystyried record yr ymgeisyddion ar, a'u gweledigaeth ar gyfer, y Gymraeg cyn ein bod yn bwrw'n pleidlais. Ydyn nhw'n cefnogi'n gweledigaeth [Mwy Na Miliwn — Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb](#)? Ydyn nhw am wirioneddol wreiddio'n hiaith yn ein cymunedau a dileu unrhyw rwystr sy'n bodoli all ei wneud yn anodd i rywun ddysgu neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd? Dyma'r math o gwestiynau y bydd angen inni eu holi pan ddaw at bleidleisio: wedi'r cyfan, mae'r gwleidyddion yn atebol i ni fel dinasyddion a phleidleiswyr ar ddiwedd y dydd.

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi credu erioed bod y Gymraeg yn perthyn i bawb, ym mhob rhan o'r wlad. Mae'r cynigion yn ein dogfen weledigaeth '*Mwy Na Miliwn — Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb*' yn cynrychioli'r camau mawr, ond cyraeddadwy, sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth honno o ddifri, drwy amlinellu'n glir y camau y dylid eu cymryd er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a defnydd bob dydd o'r iaith, yn ogystal â chyflwyno Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb. Dyma her a dyma gyfle i'n gwleidyddion, a phob un ohonom sy'n galw'r wlad hon yn gartref.

Ond a yw'r weledigaeth arloesol, flaengar hon i'w gweld ym maniffestos y pleidiau?

Isod, byddwn yn dadansoddi maniffestos y Blaid Lafur, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd.

[Y Blaid Lafur](#)

Addysg Gymraeg

Ceir sawl addewid cadarnhaol ym manifesto'r Blaid Lafur parthed addysg Gymraeg; croesawn ymrwymiad y Blaid Lafur i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg, ehangu darpariaeth blynnyddoedd cynnar Gymraeg, ehangu'r Rhaglen Drochi i Ddisgyblion a chreu rhaglen Cymraeg i rieni. Mae'r rhain i gyd yn alwadau gan y Gymdeithas.

Mae cyflwyno Deddf Addysg Gymraeg i Bawb yn un o brif alwadau Cymdeithas yr Iaith fel rhan o'n gweledigaeth '*Mwy Na Miliwn — Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb*'. Rydyn ni'n galw am Ddeddf fyddai'n sefydlu nod hirdymor yn y ddeddfwriaeth i gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg cyflawn i bawb, fel y gwneir yng Nghatalwnia.

Mae eu maniffesto'n addo 'cyflwyno'r Bil Addysg Gymraeg Cymraeg 2050 i gryfhau a chynyddu ysgolion Cymraeg ledled Cymru a sicrhau bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gyflawni'. Rhaid bod yn glir mai cymryd lle'r ddeddfwriaeth bresennol a'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg fyddai Bil Addysg Gymraeg newydd, gan fod y CSGAu wedi methu'n llwyr i dyfu addysg Gymraeg fel sydd angen. Pwy bynnag sydd mewn Llywodraeth yn y Senedd nesaf, edrychwn ymlaen i drafod a gwireddu manylion y ddeddfwriaeth hon.

Y Gymraeg yn y sectorau iechyd a gofal

Mae'r sectorau iechyd a gofal, er mor bwysig maent wastad wedi bod, wedi bod yn chwarae rhan hyd yn oed bwysicach yn ein bywydau dros y flwyddyn diwethaf. Ond mae'n hollbwysig fod hawl sylfaenol cleifion i gael mynediad at wasanaeth Gymraeg yn y sectorau hyn wastad yn cael ei barchu a'i wireddu. Rydyn ni felly'n croesawu addewid y Blaid Lafur i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg yn y sector gofal.

Y Gymraeg yng nghymunedau Cymru

Ceir ymrwymiadau ym maniffesto Llafur i greu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a diogelu enwau lleoedd Cymraeg; ymrwymiadau rydyn ni'n sicr yn croesawu eu cynnwys. Dylid nodi yma mai'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yw'r unig rai o'r prif bleidiau sy'n addo diogelu enwau lleoedd Cymraeg yn eu maniffestos.

Mae ymrwymiad y Blaid Lafur i 'creu cynllun Tai Cymunedau Iaith Gymraeg i gryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith' yn sicr yn gadarnhaol iawn. Er hyn, gan nad oes unrhyw fanylion pellach yma, mae rhai cwestiynau yn codi y byddai'n ddefnyddiol i'r Blaid Lafur eu hateb. Yn gyntaf, hoffem weld esboniad manylach o'r cynllun: beth yn union fyddai ei fwriad a'i gylch-gorwch-wyl, a sut yn union y byddai yn mynd i'r afael â'r argyfwng tai? Yn ail, hoffem weld y Blaid Lafur yn amlinellu sut y byddai eu polisi tai yn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol ym mhob rhan o Gymru ac nid *dim ond* yng nghadarnleoedd presennol yr iaith; dyma gwestiwn hynod o bwysig, yn enwedig o ystyried sylwadau llafarydd y Blaid Lafur ar y Gymraeg, pan [honnodd, yn anghywir, mai problem leol wedi'i chyfyngu i rai ardaloedd yn unig yw'r argyfwng tai](#).

Er hyn, mae'n braf gweld bod y Blaid Lafur a rai o'r pleidiau eraill yn ymrwymo i gynllun i daclo'r argyfwng tai, sy'n achosi cymaint o niwed i'n hiaith ac i gymunedau Cymru. Fodd bynnag, mae'n siomedig nad oes ymrwymiad i basio Deddf Eiddo i'w gweld yn eu maniffesto er gwaethaf [sylwadau'r arweinydd Mark Drakeford](#) yn ymrwymo i ddeddfu ar y mater os yw e'n arwain y Llywodraeth nesaf. Dim ond drwy basio Deddf Eiddo allwn ni wirioneddol ail-strwythuro marchnad tai Cymru yn yr hirdymor fel ei fod yn gweithio er budd cymunedau, nid cyfalafiaeth.

Y Gymraeg ar y cyfryngau

Mewn adroddiad diweddar, daeth Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd i'r casgliad y dylid, ymhlith yr argymhellion eraill, *'ddatganoli pwerau dros S4C a materion eraill sy'n ymwneud â darlledu Cymraeg er gwasanaeth cyhoeddus, i Gymru'*, yn ogystal â rhoi *'rôl ehangach [i Lywodraeth Cymru] wrth bennu telerau'r drwydded Sianel 3 nesaf i Gymru'*. Mae Plaid Cymru yn addo yn eu maniffesto y byddant yn trossglwyddo'r holl bwerau darlledu i Gymru a chreu Menter Ddigidol Gymraeg, gyda sefydlu'r Fenter hefyd yn bolisi ym maniffesto'r Ceidwadawyr; mae maniffesto'r Blaid Werdd yn addo trossglwyddo grymoedd darlledu'n ymwneud â rheoleiddio i Gymru; ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn addo trossglwyddo cyfrifoldebau dros S4C i Gymru. Nid yw maniffesto'r Blaid Lafur, ar y llaw arall, yn sôn am drosglwyddo unrhyw rym darlledu i Gymru. Mae hyn yn siomedig o ystyried cefnogaeth [Gwreiddiau Llafur Cymru](#) dros ddatganoli darlledu.

Mae polisi cyfryngol y Blaid Lafur felly'n llai blaengar na ddylai fod. Mae'n siomedig nad yw'r Blaid Lafur yn deall yr angen am gynyddu cynnwys Cymraeg ar y cyfryngau ac ar-lein, nac ychwaith manteision trossglwyddo grymoedd darlledu i Gymru o ran cryfhau democratiaeth Cymru.

Plaid Cymru

Mae Plaid Cymru yn dweud yn eu maniffesto eu bod yn *'cefnogi gweledigaeth 'Mwy na Miliwn' Cymdeithas yr Iaith'*. Rydyn ni'n croesawu hyn gan mai dyma'r ffordd y gallwn ddileu'r rhwystrau all atal rhwyun rhag ddysgu neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd yn ogystal â chyrraedd, a mynd tu hwnt i'r, targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dyma'r unig un o'r prif bleidiau sy'n addo cyflawni'n gweledigaeth yn ei chyfanrwydd.

Addysg Gymraeg

Mae Plaid Cymru yn ymrwymo i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg i Bawb a chynyddu'r nifer o brentisiaethau Cymraeg yn eu maniffesto — rydyn ni'n croesawu'r ymrwymadau hyn ac wedi bod yn ymgyrchu dros ddeddf o'r fath ers nifer o flynyddoedd; dyma'r unig ffordd allwn ffarwelio a'r status-quo sy'n amddifadu 80% o blant Cymru o'r gallu i siarad ein hiaith cenedlaethol, ac yn hytrach sicrhau cylfe cyfartal i bob plentyn allu ei siarad yn hyderus.

Y Gymraeg yng nghymunedau Cymru

Mae maniffesto Plaid Cymru'n cynnwys ymrwymiad i *"archwilio cynigion am Ddeddf Eiddo"*. Heb ymrwymiad clir i gyflwyno Deddf Eiddo ym maniffesto'r pleidiau, ni fydd

deddf o'r fath yn debygol o gael ei basio tan ddiwedd y tymor Seneddol o bum mlynedd, os o gwbl, gan fod y broses ddeddfwriaethol yn cymryd hir. Ond mae'r argyfwng tai cenedlaethol bresennol yn *argyfwng* ac yn galw am weithredu deddfwriaethol cyn gynted â phosib — mae felly angen gofyn y cwestiwn pam nad yw eu maniffesto'n cynnwys ymrwymiad clir i gyflwyno Deddf Eiddo. Er gwaethaf hyn, maniffesto Plaid Cymru yw'r unig un o faniffestos y prif bleidiau sy'n hyd yn oed crybwyll y posibilrwydd o gyflwyno deddf o'r fath ac felly rydyn ni'n croesawu'r ffaith fod eu maniffesto'n gadael y drws ar agor am ddeddfwriaeth.

Dylid nodi yma mai Phlaid Cymru a'r Blaid Lafur yw'r unig rai o'r prif bleidiau sy'n addo diogelu enwau lleoedd Cymraeg yn eu maniffestos.

1000 o ofodau Cymraeg newydd a "Codi'r Genedl":

Fel rhan o'n gweledigaeth '[Mwy Na Miliwn - Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb](#)', rydyn ni'n galw am greu 1000 o ofodau Cymraeg newydd ar draws Cymru. Pwrpas creu'r gofodau hyn, fyddai'n cynnwys ysgolion, gweithleoedd, clybiau chwaraeon a mwy, fyddai cynnig mwy o gyfleoedd nag erioed i bobl Cymru ddefnyddio'r Gymraeg ac o ganlyniad cynyddu'r defnydd bob dydd o'r iaith. Croesawn y ffaith felly fod maniffesto Plaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i greu 1000 o ofodau Cymraeg newydd yng Nghymru.

Mae maniffesto Plaid Cymru hefyd yn sôn am eu bwriad i sefydlu cynllun 'Codi'r Genedl', ble fyddai 'chwe rhanbarth economaidd strategol' yn cael eu creu, sef: y Cymoedd, Arfor, Clwyd, Powys, Bae Abertawe a'r De-ddwyrain. O'r chwe rhanbarth economaidd hyn, dim ond tri ohonynt — y Cymoedd, Arfor a Chlwyd — sy'n cynnwys agweddau ieithyddol iddyn nhw, tra nad yw'r cynlluniau ar gyfer y rhanbarthau eraill — Powys, Bae Abertawe a'r De-ddwyrain — yn crybwyll y Gymraeg o gwbl. Mae'r cysylltiad pwysig sy'n bodoli rhwng yr iaith a'r economi yn berthnasol ar draws y wlad, felly dylid sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn unrhyw gynllun.

Y Gymraeg ar y cyfryngau

Mae Plaid Cymru yn addo trosglwyddo pwerau darlledu i Gymru, sefydlu corff rheoleiddio Cymreig newydd '*a fydd â chylch gwaith a fydd yn cynnwys cryfhau democratiaeth leol a chenedlaethol Cymru a'r Gymraeg*' a sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg. Rydyn ni'n croesawu'r addewidion hyn — dyma rai o brif alwadau'r Gymdeithas yn y maes. Byddai'r cynigion hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn cynnwys Cymraeg ar y cyfryngau ac ar-lein ac yn cryfhau democratiaeth Cymru.

[Y Ceidwadwyr](#)

Addysg Gymraeg

Croesawn sawl un o addewidion y Ceidwadwyr ym maes polisi addysg: o'u hymrwymiad i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a gofal plant, i'w haddewid i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n annog pobl i ddefnyddio'r iaith bob dydd; o rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r Coleg Cymraeg dros hyfforddiant athrawon ac addysg ôl-16 i ddarparu trafndiaeth am ddim i ddisgyblion sy'n mynychu eu hysgol Gymraeg agosa; ac o ddatblygu'r Mudiad Meithrin i atal cau ysgolion heb gytundeb rhieni, athrawon a llywodraethwyr.

Er gwaethaf hyn, mae'n siomedig nad yw eu maniffesto'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg i Bawb. Mae'r Ceidwadwyr yn ymrwymo yn y maniffesto i'r darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg, ond mae'n amlwg mai normaleiddio'r Gymraeg fel prif gyfrwng addysg a thu hwnt yw'r unig fodd y gellir cyflawni hyn. Mae pasio Deddf Addysg Gymraeg i Bawb yn hanfodol felly i gyflawni'r nod. Heb basio deddf o'r fath, bydd 80% o blant Cymru'n parhau i'w hamddifadu o'r rhodd o ruglder yn ein hiaith cenedlaethol.

Y Gymraeg ar y cyfryngau

Mae'r Ceidwadwyr yn ymrwymo i sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg — rydyn ni'n sicr yn croesawu hyn gan fod yr addewid yn un o'n prif alwadau. Er hyn, mae'n siomedig nad yw'r Blaid Geidwadol yn addo trosglwyddo unrhyw rymoedd darlledu i Gymru, yn wahanol i Blaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd. Y gwir amdani yw y gellir ond fwynhau'r Fenter Ddigidol Gymraeg yn ei lawn botensial mewn cyd-destun ble mae'r holl rymoedd darlledu yn rhai datganoledig.

Y Gymraeg yng nhgymunedau Cymru

Mae'n siomedig nad oes unrhyw ymrwymadau i gyflwyno Deddf Eiddo neu daclo'r argyfwng tai ym maniffesto'r Ceidwadwyr. Nid ydym yn hyderus fod gan y Ceidwadwyr y cynlluniau sydd eu hangen i gryfhau'r iaith yng nghymunedau Cymru.

[Democratiaid Rhyddfrydol](#)

Addysg Gymraeg

Croesawn ymrwymiad y Democratiaid Rhyddfrydol i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg i Bawb, ehangu darpariaeth blynnyddoedd cynnar Gymraeg a darparu

£100m i ddatblygu'r gweithlu addysg Gymraeg. Byddai'r polisïau hyn yn arwain at gynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg, sy'n angenrheidiol os ydym o ddifrif ynghylch cyrraedd, a mynd tu hwnt i'r, targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Y Gymraeg ar y cyfryngau

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn addo datganoli grym dros S4C i Gymru — croesawn hyn gan y byddai'n galluogi i Lywodraeth Cymru gyflwyno setliad ariannol hirdymor gadarn i S4C a chan y byddai'n gam arwyddocaol i'r cyfeiriad cywir o ran trosglwyddo grymoedd darlledu i Gymru.

Dywed yr union eiriad o fanifesto'r Democratiaid Rhyddfrydol y byddent yn *'parhau i ymgyrchu i ddatganoli grymoedd dros S4C a materion darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill'* — hoffem wybod pa 'faterion darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill' y mae eu plaid yn galw am eu trosglwyddo i Gymru? Byddai ymrwymiad clir i drosglwyddo grymoedd darlledu i Gymru yn eu cyfanrwydd yn eu manifesto yn un llawer mwy cadarn.

Y Gymraeg yn y sectorau iechyd a gofal

Croesawn addewid y Democratiaid Rhyddfrydol i sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus, iechyd a gofal ar gael yn Gymraeg. Mae'n hollbwysig fod hawl sylfaenol cleifion i gael mynediad at wasanaeth Gymraeg yn y sectorau hyn wastad yn cael ei barchu a'i wireddu.

Y Gymraeg yng nhgymunedau Cymru

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn addo *'cefnogi a galluogi twf cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith trwy becyn o bolisïau a chyllid'*, sy'n rywbeth i'w ganmol; er hyn, nid yw'r pecyn hwn yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Deddf Eiddo, sy'n siomedig.

[Y Blaid Werdd](#)

Addysg Gymraeg

Croesawn ymrwymiad y Blaid Werdd i gyflwyno gwersi Cymraeg am ddim, a chynyddu buddsoddiad yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Er gweathaf hyn, mae'n siomedig nad yw eu manifesto'n cynnwys ymrwymiad i gyflwyno Deddf Addysg Gymraeg i bawb; heb basio deddf o'r fath, bydd 80% o blant Cymru'n parhau i'w hamddifadu o'r rhodd o ruglder yn ein hiaith cenedlaethol.

Y Gymraeg ar y cyfryngau

Mae'r Blaid Werdd yn addo trosglwyddo pwerau yn ymwneud â rheoleiddio darlledu i Gymru — croesawn hyn fel cam arwyddocaol i'r cyfeiriad cywir o ran trosglwyddo holl rymoedd darlledu i Gymru.

Yn eu manifesto, mae'r Blaid Werdd yn *'cynnig bod y Swyddfa Gyfathrebiadau (OFCOM) yn cael ei diwygio yn unol â throsglwyddo mwy o bwerau rheoleiddio i Lywodraeth Cymru, gan newid y cylch gwaith i gynnwys mwy o gyfranogiad gan ddinasyddion.'* Hoffem wybod pa 'bwerau rheoleiddio' yn union y maen nhw'n galw am eu trosglwyddo i Gymru, a pham nad yw'r Blaid Werdd yn bwriadu trosglwyddo grymoedd darlledu yn eu cyfanrwydd i Gymru.

Y Gymraeg yng nhgymunedau Cymru

Mae'n siomedig nad oes ymrwymiad i gyflwyno Deddf Eiddo ym manifesto'r Blaid Werdd.

Casgliad

Dyma rai o safbwyntiau'r Gymdeithas uchod parthed manifestos y prif bleidiau. Gobeithiwn y bydd yr uchod yn ddefnyddiol wrth ichi fynd ati i bleidleisio. Ond byddem yn eich annog i ddadansoddi'r manifestos eich hun, gan ystyried sut y maen nhw'n cymharu gyda'n gweledigaeth 'Mwy Na Miliwn - Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb'. Gofynnwch gwestiynau o'ch hymgeiswyr a'r pleidiau hefyd — i chi, etholwyr Cymru, maen nhw'n atebol!

Mae pleidleisio'n elfen angenrheidiol o ddemocratiaeth; er hyn, nid yw democratiaeth yn gyfyngedig i bleisleisio yn unig. Ni ddylai'n cyfranogiad democrataidd ddod i derfyn ar ôl y 6ed o Fai, i'r gwrthwyneb: bydd Cymdeithas yr Iaith yn parhau i weithredu yn dilyn yr etholiad, er mwyn sicrhau fod y gwleidyddion yn cadw at yr addewidion a'u wnaethwyd yn ystod yr etholiad, er mwyn gwthio'r drafodaeth ymlaen a chyflawni #MwyNaMiliwn - Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb.

cymdeithas.cymru